# Cofnodion cryno - Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Ebrill 2024

Amser: 09.30 - 12.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13861

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Delyth Jewell AS (Cadeirydd)<br>Hefin David AS<br>Tom Giffard AS<br>Llyr Gruffydd AS<br>Carolyn Thomas AS |
| Tystion: | Dafydd Evans, Colegau Cymru<br>Lisa Mytton, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru<br>Dr Ioan Matthews, Coleg Cymraeg Cenedlaethol<br>Dona Lewis, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol |
| Staff y Pwyllgor: | Lleu Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Sara Moran (Ymchwilydd)<br>Robin Wilkinson (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Davies AS.

## 2 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Sesiwn dystiolaeth gyda sefydliadau addysg a hyfforddiant ôl-16 (1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr ColegauCymru, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## 3 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Sesiwn dystiolaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolydd o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

## 4 Papur(au) i'w nodi

4.1 Cafodd y papurau eu nodi.

4.2 Cytunodd y Pwyllgor i drafod yn ei gyfarfod ffurfiol nesaf ymateb drafft i lythyr y Pwyllgor Cyllid yn gwahodd sylwadau ar gyfer llywio'r gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol i dynnu sylw at bryderon am y sector diwylliant yng Nghymru o ganlyniad i doriadau yn y gyllideb, yn benodol amgueddfeydd.

4.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Prif Weinidog newydd ac Ysgrifenyddion y Cabinet i ailddatgan meysydd blaenoriaeth y Pwyllgor ar gyfer gweddill y Chweched Senedd.

4.5 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gyngor Llyfrau Cymru yn dilyn cyhoeddiad y tendr ar gyfer cylchgrawn newydd i Gymru.

4.6 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Pwyllgor Deisebau yn gofyn am gael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt deiseb ar ddarparu cymorth dyngarol i Gaza.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Ymchwiliad undydd i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg ôl-16: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law, a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru gyda chyfres o gwestiynau.

## 7 Trafod y flaenraglen waith ar gyfer haf 2024 (2)

7.1 Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith ddrafft a chytunodd arni.

## 8 Hawliau darlledu rygbi'r Chwe Gwlad: Trafod yr adroddiad drafft (2)

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad drafft.